Cyfarfod Cyngor Cymuned Talyllychau, a gynhaliwyd yn Ysgol Talyllychau ar y 5ed o Mawrth 2024 am 7.30yh.

Presennol Janine Roberts (Cadeirydd), Marged Bowen, John Williams, Jane Morgan, , Cynghorydd Sir Fiona Walters & Gethin Williams (Clerc).

Ymddiheuriadau - Rhys Williams, Aled Williams (Is-Gadeirydd).

Datganiadau o ddiddordeb - Dim.

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

Unrhyw materion yn codi

- Cytunwyd i gael trafodaethau pellach ynglŷn a penodi Cynghorydd Cymunedol yng nghyfarfod mis Ebrill.
- M & J Maintenance & Lewis Fencing yn llwyddiannus gyda tendr torri gwair yn mynwent yr eglwys / cae cymunedol. Gethin i roi gwybod i'r ddau ohonyn nhw.
- E-bost i'w anfon gan Gethin i'r Eglwys yng Nghymru i gael eglurhad o gyfrifoldeb y Cyngor ar y fynwent.

Rhoddion

Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn gwneud rhoddion i'r canlynol:

- Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Talyllychau - £100.

Datganiad Banc. Ceisiadau Taliad

- Balans presennol - £13,454.93.
- Cyflog y Clerc - £333.26
- Taliad i CTHEM - £83.40
- Archwilio Cymru (Ffioedd Archwilio 2020/21) – £200.

Gohebiaeth

- Cadarnhaodd Emily Ashdown fod yr holl wiriadau defib wedi'u gwneud ar gyfer mis Chwefror, ac nid oes unrhyw faterion i'w hadrodd. Mae Nigel a Kath Lovatt wedi cytuno i gymryd yr awenau o Emily.
- Llythyr o diolch wedi ei dderbyn wrth Urdd Cylch Blaenau Tywi, Elusen Ambiwlans Awyr Cymru, Y Lloffwr a Clwb Cinio Llansawel am y rhodd gan y Cyngor.

Cynllunio

- Dim ceisiadau cynllunio.

Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf

- Cyflwynodd Cynghorydd Fiona Walters y newyddion diweddaraf am y ffordd anawdurdodedig.
- Arwyddion baw cŵn wedi derbyn a byddant yn cael eu gosod maes o law.
- Cyfarfod nesaf i'w gynnal yn Ysgol Talyllychau am 7.30yh ar y 2 o Ebrill 2024.
- Daeth y cyfarfod i ben am 9.15yh.